

Ymgynghoriad ar ein dull o gyflawni'r Adolygiad Perfformiad

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Ein rôl a'r adolygiad perfformiad.....	1
Y broses gyfredol o adolygu perfformiad	3
Dewisiadau i wella ein dull.....	7
Cyflwyniad.....	7
Cwmpas adolygiadau	11
Asesu risg	12
Gwneud penderfyniadau	14
Cefnogi gwelliant.....	14
Adolygiadau thematig.....	15
Asesiad effaith.....	17
Crynodeb o'r cwestiynau.....	17
Sut i ymateb.....	18
Cyfrinachedd gwybodaeth.....	19
Ein proses ymgynghori ac adborth.....	20

1. Cyflwyniad

Ein rôl a'r broses adolygiad perfformiad

1.1 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) ar 1 Rhagfyr 2012 gan gymryd cyfrifoldeb dros swyddogaethau'r Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd. Rydym yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Sefydlir ein rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2002. Rydym yn goruchwyllo gwaith y deg rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol:

- **Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC)** sy'n rheoleiddio ceiropractyddion yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)** sy'n rheoleiddio deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol a therapyddion orthodonteg yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)** sy'n rheoleiddio meddygon yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC)** sy'n rheoleiddio optometryddion, optegwyr cymwysedig ac optegwyr sy'n fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC)** sy'n rheoleiddio meddygon esgyrn yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)** sy'n rheoleiddio fferyllwyr ym Mhrydain Fawr
- **Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)** sy'n rheoleiddio therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, cyflenwyr teclynnau clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, parafeddygon, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicolegol, prosthetyddion ac orthoptwyr, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a llais yn y Deyrnas Unedig.
- **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)** sy'n rheoleiddio nyrsys a bydwreigedd yn y Deyrnas Unedig
- **Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI)** sy'n rheiddio fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon.
- **Social Work England (SWE)** sy'n rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr

Y broses o adolygu perfformiad

1.2 Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar 'i ba raddau, ym marn yr Awdurdod, mae pob un o'r rheolyddion wedi cydymffurfio gydag unrhyw ddyletswydd a gyflwynwyd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles [defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr,

defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau eraill o'r cyhoedd]''.¹

- 1.3 Rydym yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwy gyflawni adolygiadau perfformiad blynyddol o bob rheoleiddiwr. Mae'r adolygiadau hyn yn asesu perfformiad y rheolyddion yn erbyn ein Safonau Rheoleiddio Da (y Safonau) sy'n sefydlu'r deilliannau yr ydym yn disgwyl i bob rheoleiddiwr gyflawni. Daeth y Safonau cyfredol i rym yn Ionawr 2020 ac fe'i cyflwynir yn Atodiad A.

Yr ymgynghoriad hwn

- 1.4 Fe adolygom y broses adolygiad perfformiad ddiwethaf yn 2014/15, a rhoi'r broses gyfredol ar waith yn 2016. Yn y bron i bum mlynedd ers i ni fod yn cynnal ein proses adolygiad perfformiad, a gydag adborth gan randdeiliaid, rydym wedi nodi nifer o feysydd y credwn y gellid eu gwella. Credwn ei bod yn amserol i edrych eto ar ein dull o gyflawni adolygiad perfformiad i sicrhau bod ein proses yn dal yn briodol o ystyried y Safonau newydd ac yn parhau i fod yn gymesur ac effeithiol.

Gwaith cyn ymgynghori

Yng Ngorffennaf 2020, fe ysgrifennom at randdeiliaid allweddol i'w hysbysu o'r prosiect hwn ac i wahodd adborth cychwynnol ar y broses adolygiad perfformiad, gan gyfeirio'n benodol at ein hadrodd a meysydd a allai elwa o graffu manylach neu wahanol gan yr Awdurdod. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl unigolion a sefydliadau a fu'n cwrdd â ni ac a ddarparodd sylwadau ysgrifenedig a chynorthwyo.

- 1.5 Fe wnaethom ddadansoddi'r casgliadau o'r gwaith cyn ymgynghori a'u hystyried wrth ddatblygu'r papur hwn.
- 1.6 Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol a rheolyddion yr ymarferwyr ynddi yn wynebu heriau arwyddocaol. Mae'r pandemig Covid-19 wedi ychwanegu'n sylweddol at hyn. Yn ogystal, bydd yn rhaid i reolyddion ddelio gydag effaith Brexit ar geisiadau cofrestru ac ymarferwyr yr UE a'r pwysau ar y gweithlu sydd wedi eu nodi ers cryn dipyn o amser.
- 1.7 Hefyd, mae'r llywodraeth yn ystyried newidiadau i'r modd mae'r rheolyddion yn gweithio er mwyn gwneud rheoleiddio proffesiynol yn 'gyflymach, mwy syml ac yn fwy ymatebol i anghenion cleifion, gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd a chyflogwyr'.² Trwy gydol yr adolygiad hwn, byddwn yn cadw dan ystyriaeth y ffaith bod angen i'n proses adolygu perfformiad fod yn hyblyg ac ystwyth i asesu unrhyw newidiadau i'r modd mae'r rheolyddion yn gweithredu. Gallai'r newidiadau i'r modd mae'r rheolyddion yn gweithredu olygu bod risgiau newydd neu wahanol yn codi, a dylai ein swyddogaeth trosolwg gyffredinol barhau i fod yn gadarn. Er ein bod yn ystyried bod ein proses yn debygol o fod yn ddigon hyblyg i'n galluogi i fonitro effaith newidiadau a gyflwynwyd gan y rheolyddion, byddem yn croesawu sylwadau o ran sut allwn ni sicrhau bod y broses yn dal i fod yn ddigon ystwyth i ddelio ag unrhyw faterion yn deillio o ddiwygiadau arfaethedig y Llywodraeth.

¹ Paragraff 16 (1A) y Ddeddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd.

² Ymgynghorodd y llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddio proffesiynol tua diwedd 2017/dechrau 2018.

Gweler <https://www.gov.uk/government/consultations/promoting-professionalism-reforming-regulation> am ragor o wybodaeth.

- 1.8 Rydym yn bwriadu setlo unrhyw newidiadau i'r broses tua chanol 2021, ac i'w mabwysiadu yn y cylch adolygiad perfformiad ar ddechrau 2022. Credwn y dylai hyn ddarparu digon o amser i ni a'r rheolyddion addasu i unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r amserlen hon dan adolygiad.
- 1.9 Croesawn ymatebion i'r cwestiynau a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn gan yr holl randdeiliaid. Anfonwch nhw at PRconsultation@professionalstandards.org.uk yn ddim hwyrach na **4 Mawrth 2021**. O ganlyniad i'r pandemig, byddem yn annog ymatebwyr yn gryf i gyflwyno eu hymatebion trwy e-bost neu i gysylltu â ni os nad yw hyn yn bosibl.

2. Y broses gyfredol o adolygu perfformiad

- 2.1 Fe gyflwynom y broses gyfredol o adolygu perfformiad yn Ionawr 2016. Roedd y system yn disodli proses flaenorol ble cyhoeddum un adroddiad o berfformiad y rheolyddion fel ychwanegiad i'n hadroddiad blynyddol. Roedd y broses honno yn llafurddwys ac yn gofyn am ddarparu gwybodaeth arwyddocaol gan y rheolyddion, ac fe dderbyniodd adborth ei fod yn llethol. Roedd y broses ddiwygiedig yn anelu at ddarparu dull mwy cymesur, seiliedig ar risg. Awgrymodd yr adborth a dderbyniodd gan y rheolyddion ar y pryd eu bod yn croesawu'r newidiadau, ac nid oes gennym unrhyw bryderon nad yw'r broses mwy targedig hon wedi methu â nodi pryderon difrifol ynghylch eu perfformiad.
- 2.2 Dan y broses gyfredol, rydym yn adolygu pob un o'r rheolyddion yn eu tro yn ystod pob blwyddyn. Rydym yn archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael ac yn dod i benderfyniad ar i ba raddau mae'r rheoleiddiwr wedi bodloni pob un o'r Safonau a pharatoi adroddiad yn cyflwyno ein casgliadau.³

Asesiad

- 2.3 Dechreuwa pob adolygiad perfformiad gydag asesiad cychwynnol o'r wybodaeth sydd gennym am berfformiad y rheolydd. Gwnawn hyn heb ofyn am wybodaeth gan y rheolydd. Mae'r wybodaeth y byddwn yn edrych arni'n cynnwys:
- y canlyniad o'r adolygiad perfformiad blaenorol, yn benodol ble rydym wedi nodi materion sydd dal angen eu hadolygu
 - yr wybodaeth ystadegol mae'r holl reolyddion yn anfon atom pob chwarter (y set data)
 - gwiriad o wybodaeth ar gofrestr gyhoeddedig y rheolydd
 - gwybodaeth o'n hadolygiadau o benderfyniadau addaswydd i ymarfer y rheoleiddiwr dan ein proses Adran 29
 - gwybodaeth a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr, yn cynnwys adroddiadau, ymchwil a phapurau'r Cyngor a phwyllgorau
 - datganiadau i'r wasg gan y rheoleiddiwr a datganiadau cyhoeddus a wnaed gan ei randdeiliaid

³ Mae copiâu o'n hadroddiadau adolygiad perfformiad diweddaraf ar gael ar ein gwefan: <http://www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/our-work-with-regulators/read-performance-reviews>

- adborth a dderbyniwyd gan drydydd partion, yn cynnwys pryderon a godwyd gyda'r Awdurdod – wrth baratoi ar gyfer pob asesiad, mae ein gwefan yn cynnwys galwad am adborth ynghylch y rheoleiddiwr perthnasol
- dogfennau polisi a phroses cyfredol a ddarparwyd gan y rheoleiddiwr.

2.4 Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud argymhelliad i banel gwneud penderfyniadau mewnol. Mae'r panel yn penderfynu os ydym angen cyflawni adolygiad pellach i bennu bod pob Safon wedi ei bodloni. Os nad oes angen adolygiad pellach, rydym yn symud yn syth i'r cyfnod adrodd.

Adolygiad pellach

2.5 Os bydd y panel yn penderfynu y dylem gynnal adolygiad pellach, byddwn yn casglu'r wybodaeth bellach rydym ei hangen. Gall hyn gynnwys:

- gofyn i'r rheoleiddiwr am wybodaeth bellach i ddelio ag unrhyw ymholiadau a allai fod wedi codi
- cwrdd â staff perthnasol o'r rheoleiddiwr i drafod agwedd o'i berfformiad
- cyflawni adolygiadau ffeiliau ar sampl o waith y rheoleiddiwr (archwiliadau).

2.6 Os, yn ystod ein hadolygiad, y byddwn yn canfod tystiolaeth newydd sy'n newid ein barn am Safon a fodlonwyd yn dilyn ei hasesiad, byddwn yn ei ailystyried. Yn dilyn yr adolygiad, mae'r tîm yn gwneud argymhelliad terfynol i'n panel ynghylch perfformiad y rheoleiddiwr. Mae'r panel yn gwneud y penderfyniad terfynol os yw pob Safon wedi ei bodloni.

Adrodd

2.7 Unwaith y byddwn wedi gwneud ein penderfyniad terfynol ynghylch perfformiad y rheoleiddiwr yn erbyn y Safonau, rydym yn ysgrifennu ein hadroddiad adolygiad perfformiad. Mae'r adroddiad yn naratif ac yn esbonio ar beth yr edrychom a'n canfyddiadau. Nid yw'n sefydlu manylion llawn popeth a ystyriom, ond mae'n darparu digon o wybodaeth fel bod pobl yn gallu deall sut daethom i benderfyniad ar bob Safon. Rydym yn rhannu copi o'r adroddiad drafft gyda'r rheoleiddiwr cyn cyhoeddi, fel bydd cyfle i egluro unrhyw gamddealltwriaeth ffeithiol. Yn fe gyhoeddir yr adroddiad ar ein gwefan a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Dethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg (ar gyfer Social Work England yn unig) a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Trafodaeth o'r broses gyfredol

2.8 Derbyniom y sylwadau canlynol mewn ymateb i'n cais cychwynol am adborth:

- Cwestiynodd nifer o randdeiliaid yr angen am adolygiadau blynyddol, er nad oedd cytundeb ar pa mor aml ddylid cynnal yr adolygiadau
- Roedd rhai rheolyddion yn gofidio am ddibyniaeth ormodol ar y set data gan nad yw'n mesur ansawdd nac yn rhoi ystyriaeth i'r gwahanol gyd-destunau mae pob gweithredwr yn gweithredu ynddynt. Nodwn ei bod yn bosibl nad oes ymwybyddiaeth gyflawn o'r amrywiaeth o dystiolaeth a ddefnyddiwn. Nododd un o'r rheolyddion ei bod yn ymddangos nad oedd

cynrychiolaeth ddigonol o farnau cleifion/achwynwyr yn y dystiolaeth a gasglwn ac a ystyriwn

- Mynegodd rhai o'r rheolyddion awydd am ymgysylltu mwy rheolaidd ac amlach yn ystod y flwyddyn yn ogystal â thrwy gydol y broses asesu, yn arbennig i egluro materion sy'n achosi gofid cyn gwneud penderfyniadau
- Dadleuodd rhai o'r rheolyddion y gallai datblygiad rheoleiddiol gael ei ysgogi gan fwy o ffocws ar ddeilliannau a sut mae'r rheolyddion yn bodloni eu diben cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd yn hytrach nag ar y mewnbynnau a phrosesau lefel is a'r swyddogaethau statudol allweddol
- Credai nifer o'r rheolyddion y dylem fabwysiadu dull mwy awgrymus i ddisgrifio perfformiad yn erbyn y Safonau yn hytrach na'r dull 'wedi bodloni/heb fodloni' cyffredol
- Teimlai rhai rheolyddion erbyn ei gyhoeddi, nad yw'r adroddiad bellach yn gyffredol, neu nid yw'r materion a godwyd yn berthnasol bellach
- Mae yna gefnogaeth helaeth ymysg y rheolyddion ar gyfer rhannu barnau'r Awdurdod ar arfer da
- Roedd yr adborth a dderbyniwyd ar fformat yr adroddiadau yn gyfyngedig, ond positif, yn cynnwys bod y naratif yn ddefnyddiol ac yn darparu cyd-destun gwerthfawr a bod lefel y manylder yn arddangos ein craffu ar y rheolyddion ac yn rhoi sicrwydd y cyflawnir adolygiadau perfformiad mewn modd trwyadl a chymesur.

2.9 Cyflawnom adolygiad desg hefyd o gynlluniau sy'n cyflawni swyddogaethau tebyg i'n hadolygiad perfformiad. Fe nodom feysydd perthnasol i'w harchwilio a defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae naw o gynlluniau'n gweithio, gan edrych ar eu pwerau a dibenion, methodoleg ac adrodd. Roedd ein casgliadau yn cynnwys:

- Nid oedd nifer o'r cynlluniau a adolygwyd yn gweithredu ar gylch blynyddol. Roedd gan rai gylchoedd adolygu llai cyson yn ddiodyn, ac roedd eraill yn defnyddio perfformiad neu risg i bennu amllder adolygu
- Mae rhai o'r cynlluniau yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn defnyddio adborth yn fwy nag y gwnawn ni ar hyn o bryd, yn arbennig y cynlluniau archwiliadau
- Mae rhai cynlluniau'n defnyddio detholiad mwy eang o dystiolaeth na ni, fel gwybodaeth gan staff mewn gwasanaeth sydd dan adolygiad, adborth gan rhanddeiliaid, ac archwiliad mwy manwl neu ddata archwilio
- O'r cynlluniau a adolygwyd, roedd yna amrywiaeth o benderfyniadau ar gael, o bodlonwyd/heb eu bodloni, i systemau graddio ehangach, mwy disgrifiadol
- Roedd rhai cynlluniau'n nodi arfer da, naill ai trwy adrodd (er enghraifft trwy hysbysu hyn yn ffurfiol yn yr adroddiad) neu trwy wneud penderfyniadau (fel y rhai sy'n gallu dyfarnu graddiadau 'rhagorol')
- Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn cynhyrchu adroddiadau naratif cymharol i'n rhai ni, ond roedd gan eraill adroddiadau byrrach a mwy hygyrch. Gwnaethom hefyd adolygu un oedd yn cynhyrchu gwahanol

adroddiadau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd gydag adroddiad crynodeb byr ar gyfer y cyhoedd ac adroddiad hirach ar gyfer gwrthrych yr adolygiad.

2.10 Cytunwn gyda nifer o'r pwyntiau a godwyd. Yn benodol:

- Rydym yn cytuno ei bod yn cymryd mwy o amser nag y dymunwn i adrodd, yn cynnwys ble rydym yn cyflawni adolygiadau ac archwiliadau targedig gan gyhoeddi ein hadroddiadau sawl mis wedi i'r cyfnod dan adolygiad ddod i ben. I raddau, mae hyn yn anochel mewn proses adolygol. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried os allwn ni addasu ein prosesau i leihau'r amser a gymer
- Credwn y gall fod cwmpas i ddatblygu ein dull seiliedig ar risg, cysylltiedig i berfformiad ymhellach, a allai leihau'r baich ar reolyddion sy'n perfformio'n dda yn ogystal â thargedu meysydd risg yn fwy manwl. Fodd bynnag, efallai bod cwmpas hefyd i edrych yn fwy trylwyr ar y rheolyddion dan rai amgylchiadau
- Mae yna nifer o ddewisiadau i'r Awdurdod allu cefnogi gwelliannau trwy ein gwaith adolygiad perfformiad
- Fe ystyriom ein dull 'wedi bodloni/heb fodloni' deuaidd wrth ymgynghori ar y Safonau newydd, ond credwn ei bod yn briodol i adolygu ein dull unwaith eto yn y cyfnod hwn, tra byddwn yn adolygu ein dull a phrosesau ehangach
- Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod ein sylfaen tystiolaeth yn darparu darlun llawn o berfformiad y rheolyddion a byddwn yn adolygu hyn. Yn benodol, byddwn yn ceisio gwella ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, megis cynrychiolwyr cleifion, cyflogwyr, cofrestryddion ac academyddion
- Wrth adolygu ein sylfaen tystiolaeth byddwn hefyd yn ystyried beth allwn ni wneud i asesu sut mae'r rheolyddion a'r prosesau maent yn gweithredu yn diogelu pobl agored i niwed
- Cytunwn y gallem wella sut fyddwn ni'n ymgysylltu â'r rheolyddion a byddwn yn trafod gyda'r rheolyddion beth fyddai'r ffordd fwyaf cynhyrchiol o ymgysylltu â nhw o fewn a thu allan i'r broses adolygu
- Nodom sylwadau gan rai o'r rheolyddion yn dweud wrthym y gallai datblygiad rheoleiddiol gael ei ysgogi gan fwy o ffocws ar ddeilliannau a sut mae'r rheolyddion yn bodloni eu diben cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd yn hytrach nag ar y mewnbynnau a phrosesau a'r swyddogaethau statudol allweddol. Fe ystyriom y cwestiwn hwn wrth ymgynghori ar y Safonau Rheoleiddio Da. Fe nodom ei bod yn anodd nodi deilliannau ehangach na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i berfformiad rheoleiddiwr mewn un flwyddyn unigol. Yn ogystal, mae angen i brosesau'r rheolyddion fod yn ddigonol i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at ymarferwyr cymwysedig priodol sy'n destun safonau gorfodol priodol. Fodd bynnag, yn ein trafodaeth isod, rydym yn ceisio barnau ar sut allwn ni nodi'r risgiau allweddol i'r system ehangach a sicrhau bod y rheolyddion yn delio â'r rhain
- Byddwn yn ystyried a oes angen i ni wneud unrhyw newidiadau i'n hadroddiadau i'w gwneud yn fwy hygyrch

- 2.11 Mae rhai o'r meysydd a nodwyd yn codi cwestiynau sylfaenol ynghylch ein dull ac fe hoffem archwilio'r rhain yn y papur. Felly rydym yn gofyn am farnau ar y pum maes canlynol:
- Cwmpas yr adolygiadau: a ddylid asesu'r Safonau Rheoleiddio Da yn flynyddol ar gyfer pob rheolydd?
 - Asesu risg: beth yw'r ffordd orau i ni nodi risgiau i ddiogelu'r cyhoedd a hyder y cyhoedd trwy'r broses o adolygu perfformiad?
 - Gwneud penderfyniadau: a ddylen ni gadw'r system ddeuol gyfredol neu fabwysiadu dull gwahanol?
 - Cefnogi gwelliant: sut allwn ni sicrhau bod ein hadolygiadau perfformiad yn ychwanegu'r gwerth mwyaf ac yn hybu gwaith y rheolyddion o ran diogelu'r cyhoedd?
 - Adolygiadau thematig: ydych chi'n credu y byddai adolygiadau thematig yn ein cynorthwyo yn ein craffu o'r rheolyddion ac yn hybu ein rôl diogelu'r cyhoedd?
- 2.12 Er mai'r meysydd allweddol hyn yw ffocws yr adolygiad hwn, byddwn yn archwilio'r holl bwyntiau a nodwyd ym mharagraffau 2.8-2.10 trwy'r adolygiad hwn. Bydd unrhyw newidiadau i'n prosesau gweithredol yn destun gwaith ymgysylltu pellach.

Cwestiwn 1: A oes yna unrhyw bryderon eraill ynghylch y broses gyfredol o adolygu perfformiad nad ydym wedi eu nodi yma?

3. Dewisiadau i wella ein dull

Cyflwyniad

- 3.1 Fel y soniwyd uchod ym mharagraff 1.2, mae gennym ddyletswydd statudol i adrodd ar berfformiad y rheolyddion yn flynyddol.
- 3.2 Credwn wrth ystyried perfformiad y rheolyddion y dylem edrych ar:
- Os yw'r rheoleiddiwr yn ymwybodol o ac yn delio gyda'r risgiau i'r cyhoedd a gyflwynir gan ei gofrestryddion
 - Sut mae safonau, hyfforddiant, prosesau a gofynion eraill (e.e. addasrwydd i ymarfer parhaus) yn delio â'r risgiau hynny
 - Sut mae'r rheoleiddiwr yn gweithio ac ymgysylltu gydag eraill (e.e. grwpiau cleifion a chyflogwyr) i ddelio â'r risgiau hynny
 - Effeithlonrwydd prosesau mewnol y rheoleiddiwr (cofrestru, ymarfer anghyfreithiol, addasrwydd i ymarfer) wrth ddelio â'r risgiau hynny.
- 3.3 Wrth gyflawni ein rôl, rydym yn ystyried bod rheolyddion yn y safle gorau i sefydlu'r systemau sy'n gweithio iddynt. Rydym hefyd yn ystyried na fydd rhywbeth a nodir i fod yn arfer da mewn rheoleiddiwr o reidrwydd yn arfer da ar gyfer rheoleiddiwr arall.

- 3.4 Rydym hefyd yn ystyried bod y broses yn creu baich ar y rheolyddion wrth ymateb i'n hadolygiadau targedig a darparu ar gyfer ein harchwiliadau. Rydym eisiau sicrhau bod cyfiawnhad dros ein ceisiadau a'u bod wedi eu targedu'n briodol.
- 3.5 Yn olaf, credwn fod yr offer sylfaenol a ddefnyddiwn – casglu tystiolaeth gychwynnol ac yna cwestiynau i'r rheoleiddiwr gyda'r dewis o archwiliad os oes gennym bryderon am brosesau – y rhai cywir i gyflawni'r dasg a dylai ein galluogi i fabwysiadu dull cymesur, seiliedig ar risg.

Cwestiwn 2: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein rôl neu'n dull cyffredinol o gynnal adolygiad perfformiad fel y sefydlwyd yma?

Cwmpas yr adolygiadau: a ddylid asesu'r Safonau Rheoleiddio Da yn flynyddol ar gyfer pob rheolydd?

- 3.6 Nid yw'r Ddeddf yn pennu sut ddylai'r Awdurdod gyflawni ei ddyletswydd statudol i adrodd i'r Senedd ar berfformiad y rheoleiddiwr. Credwn fod gennym ddisgresiwn sylweddol o ran sut fyddwn yn sefydlu ein barn. Mae ein proses gyffredol eisoes yn dilyn dull seiliedig ar risg; er ein bod yn asesu pob Safon pob blwyddyn, dim ond ble nodwn fod angen rhagor o wybodaeth nag sydd ar gael yn ystod y cam asesu fyddwn ni'n cynnal adolygiadau pellach. Ond fe allai fod yn bosibl datblygu hyn ymhellach. Byddai dull mwy targedig yn ein galluogi i ffocysu ein hadnoddau ble mae mwyaf eu hangen, yn cynnwys ar y meysydd hynny ble nad yw perfformiad y rheoleiddiwr yn bodloni ein Safonau, neu ble ceir ffactorau risg penodol. Credwn hefyd y gallai dull mwy targedig ein galluogi ni, a'r rheolyddion, i ffocysu ar waith arall, yn cynnwys adolygiadau thematig (a drafodir mewn mwy o fanylder ym mharagraffau 3.32-3.39) ble gallwn ychwanegu mwy o wrth i'r system yn gyffredinol. Mae yna fanteision i ddefnyddio ein hadnoddau, a rhai ein rhanddeiliaid, gyda mwy o ffocws, yn targedu meysydd risg.
- 3.7 Yn groes i hyn, pe byddem yn lleihau cwmpas ein hadolygiadau, mae risg na fyddwn yn nodi pryderon sydd ar godi ynghylch perfformiad neu na fyddwn yn gweld enghreifftiau o ymarfer da. Gallai hefyd achosi i ni fod yn llai cyfarwydd gyda gwaith y rheolyddion ble mae'r risg yn ymddangos i fod yn is.
- 3.8 Gallai newid yn ein dull olygu y gallem ddibynnu ar adolygiad llai o rai neu bob un o'n Safonau ble nad ydym wedi nodi unrhyw bryderon, ac felly'n cyfyngu ein cwmpas i ganolbwyntio ein hadnoddau ar reolyddion, neu feysydd o waith y rheolyddion, ble rydym wedi nodi ffactorau risg.
- 3.9 Rydym yn ystyrllon y bydd y risgiau i ddiogelu'r cyhoedd ar draws pedair swyddogaeth statudol y rheolyddion,⁴ os yw perfformiad yn ddiffygiol yn amrywio. Er enghraifft, credwn y gallai prosesau neu bolisiau diffygiol yn swyddogaeth cofrestru neu addasrwydd i ymarfer rheoleiddiwr arwain at risgiau uniongyrchol ar gyfer cofrestryddion penodol (gellid caniatáu i gofrestryddion unigol ymarfer neu barhau i ymarfer pan nad ydynt yn ddiogel i wneud hynny), ond o ran canllawiau a safonau, neu addysg a hyfforddiant, gallai'r risgiau fod yn llai uniongyrchol ond yn ehangach (gallai grŵp mwy o gofrestryddion fod yn ymarfer heb iddynt fodloni'r safonau priodol). Rydym hefyd yn ystyrllon bod ein

⁴ Canllaw a safonau, addysg a hyfforddiant, cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Safonau cyffredinol (Safonau 1-5) yn berthnasol i swyddogaethau'r holl reolyddion ac o ganlyniad mae eu cwmpas yn fwy eang, felly gallai methiant yn un o'r Safonau cyffredinol gael effaith mwy arwyddocaol. Wrth ystyried dull mwy targedig i adolygiad perfformiad, dylem hefyd ystyried os bydd rhai o'r safonau neu'r cyfan ohonynt angen lefel uwch neu fwy manwl o graffu.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylem ddal i edrych ar berfformiad y rheolyddion yn erbyn yr holl Safonau pob blwyddyn, neu a allai cwmpas yr adolygiadau fod yn fwy targedig?

- 3.10 Pe byddem yn dilyn dull mwy targedig, gallai'r ffactorau canlynol awgrymu y gallwn deimlo'n hyderus ym mherfformiad y rheoleiddiwr parthed rhai neu'r cyfan o'r Safonau a dynodi adolygiad ar lefel is:
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn ymwybodol o ac yn delio gyda'r risgiau sy'n codi ar gyfer y proffesiwn
 - Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn adolygu ei berfformiad ei hun yn rheolaidd ac yn gweithredu yn erbyn pryderon
 - Mae'r rheoleiddiwr yn bodloni dangosyddion perfformiad allweddol priodol ac yn dilyn ei gynllun busnes
 - Nid yw'r rheoleiddiwr wedi gwneud unrhyw newidiadau arwyddocaol i brosesau neu bolisiau
 - Nid yw'r set data a ddarparwyd gan y rheoleiddiwr yn awgrymu amrywiaethau niweidiol difrifol mewn perfformiad
 - Nid yw gwybodaeth gan randdeiliaid yn awgrymu pryderon difrifol
 - Ni nododd yr adolygiad perfformiad blaenorol unrhyw bryderon parthed y Safonau perthnasol.
- 3.11 Gellid darparu tystiolaeth o'r ffactorau hyn mewn deunyddiau sydd ar gael i'r Awdurdod ac, o ran egwyddor, efallai na fyddai'r rheoleiddiwr angen darparu rhagor o wybodaeth. Fodd bynnag, credwn y byddai'n briodol i geisio barn y rheoleiddiwr i weld a hoffai dynnu sylw'r Awdurdod at unrhyw fater.
- 3.12 Mewn cyferbyniad, efallai y gwelir bod angen adolygiad mwy manwl os gwelir:
- Risgiau newydd neu arwyddocaol yn codi o amgylchedd ymarfer neu ofal iechyd y cofrestryddion, yn arbennig ble na ymddengys bod y rhain yn cael sylw
 - Tystiolaeth nad oedd y rheoleiddiwr yn bodloni dangosyddion perfformiad allweddol priodol neu dargedau eraill (fel gwaith a sefydlwyd yn ei gynllun busnes)
 - Tystiolaeth o ddirywiad mewn perfformiad yn erbyn y Safonau, fel tystiolaeth o bryderon penodol, neu os yw'r rheoleiddiwr yn methu bodloni ei dargedau ei hun (fel y rhai a sefydlir yn ei gynllun busnes)
 - Prosesau a gweithdrefnau newydd mewn meysydd sy'n berthnasol i'n Safonau
 - Pryderon difrifol wedi eu mynegi gan randdeiliaid
 - Pryderon wedi eu nodi mewn adolygiadau perfformiad blaenorol.

Cwestiwn 4: Pe byddem am newid ein dull, ai dyma'r ffactorau cywir i ni eu hystyried wrth bennu cwmpas adolygiadau? Oes yna unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

- 3.13 Fel yr awgrymom, mae perygl os na fyddwn yn edrych ar berfformiad yn erbyn yr holl Safonau'n rheolaidd, na fydd risgiau sy'n codi neu berfformiad diffygiol yn cael ei nodi. I ddelio â hyn, gallem fabwysiadu tybiaeth y dylem archwilio perfformiad rheoleiddiwr yn erbyn bob Safon yn ystod ysbeidiau isafswm rheolaidd i fodloni'n hunain bod perfformiad yn dal yn gryf. Byddai hyn yn ein galluogi i fodloni ein hunain ynghylch perfformiad rheoleiddiwr, neu i nodi pryderon. Fodd bynnag, gallai hyn olygu ein bod yn creu mwy o faich i reolyddion nag sydd angen.
- 3.14 Pe byddem yn mabwysiadu'r dull hwn, byddai angen i ni ystyried uchafswm y cyfnod amser a ddylai basio rhwng adolygiadau o Safonau unigol. Er ei bod yn bosibl i berfformiad ddirywio'n gyflym credwn y dylai ein meini prawf ein galluogi i nodi ble mae angen i ni adolygu perfformiad yn erbyn Safon nad oedd wedi peri gofid i ni'n flaenorol. Credwn felly y gallai pum mlynedd fod yn uchafswm bwelch amser priodol rhwng adolygiadau. Fodd bynnag, rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ynghylch y cyfnod amser cywir.
- 3.15 Efallai y byddai'n ddefnyddiol crynhoi'r camau fyddai'r Awdurdod yn cymryd wrth benderfynu p'un ai i adolygu Safon neu beidio pe byddem yn dilyn y dull hwn. Wrth ystyried a oes angen i ni gyflawni adolygiad:
- Ni fyddem yn adolygu Safon os:
 - yw'r ffactorau ym mharagraff 3.10 yn berthnasol parthed y Safon honno
 - nad oedd y ffactorau ym mharagraff 3.12 yn berthnasol ac
 - roeddem wedi adolygu'r Safon o fewn y pum mlynedd diwethaf.
 - Byddem yn adolygu Safon os
 - Nad oedd rhai o'r ffactorau ym mharagraff 3.10 yn berthnasol parthed y Safon honno, neu
 - Nad oedd rhai o'r ffactorau ym mharagraff 3.12 yn berthnasol, neu
 - Nad ydym wedi adolygu'r Safon o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Cwestiwn 5: Pe byddem yn gweithredu system fel y disgrifiwyd uchod, ydych chi'n cytuno y dylid tybio y dylai'r Awdurdod adolygu'r holl Safonau'n weithredol ar ysbeidiau rheolaidd? Beth ydych chi'n feddwl fyddai cyfnod amser priodol?

Ystwythder i ymateb i risg ddifrifol

- 3.16 Credwn y gellid lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda lleihad yng nghwmpas ein hadolygiadau trwy broses monitro ffurfiol, yn seiliedig ar asesiad rheolaidd o'r pwyntiau a nodwyd uchod ym mharagraffau 3.10 a 3.12. Byddai hyn yn ein helpu i gael dealltwriaeth glir a chyfredol o risgiau a pherfformiad yn erbyn pob un o'r Safonau ar gyfer pob rheoleiddiwr.
- 3.17 Credwn hefyd y gall fod manteision i gyflwyno proses fonitro ffurfiol ble rydym yn ymwybodol o risgiau arwyddocaol a phenodol, ble mae angen i ni edrych yn

fanwl ar berfformiad y rheoleiddiwr yn ystod cyfnod yr adolygiad perfformiad. Rydym o'r farn y gallai dull o'r fath fod yn briodol os nodwn risgiau mawr i ddiogelu'r cyhoedd (er enghraifft, o ganlyniad i berfformiad diffygiol mewn adolygiadau blaenorol). Ystyriwn ei bod yn allweddol i ddiogelu'r cyhoedd ein bod yn monitro gwaith rheoleiddiwr i ddelio â'r risgiau hynny. Byddai dull o'r fath yn debygol o fod yn eithriadol. Gall hyn gynnwys opsiwn i ddefnyddio adroddiadau dros dro ar berfformiad.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylem gyflwyno prosesau monitro fel y disgrifiwyd uchod? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr awgrymiadau hyn?

Asesu risg: beth yw'r ffordd orau i ni nodi risgiau i ddiogelu'r cyhoedd a hyder y cyhoedd trwy'r broses o adolygu perfformiad?

- 3.18 Mae ymchwiliadau yn cynnwys Ymchwiliad Annibynnol Paterson,⁵ Adroddiad yr Ymchwiliad i Morecambe Bay,⁶ Adroddiad Cumberlege⁷ ac Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Mid Staffordshire (Adroddiad Francis)⁸ wedi nodi methiannau rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys nad oedd prosesau'r rheolyddion yn effeithiol o ran delio gyda'r pryderon diogelu'r cyhoedd a nodwyd iddynt, naill ai i atal y niwed neu i gymryd camau cynnar wedi eu canfod. Yn ogystal, fe nodwyd pryderon ynghylch prosesau mewnol y rheolyddion a'u cyfathrebu gydag eraill. Nodwyd hefyd ei bod yn bosibl nad oes gan yr Awdurdod yr offer mae angen i ddelio â materion o'r fath.
- 3.19 Er bod y cwestiwn o offer yn un y gellir ymrafael ag o yng nghyd-destun diwygio rheoleiddio, mae gan adolygiadau perfformiad rôl mor bwysig i'w chwarae o ran nodi a lliniaru'r risg y gallai methiannau tebyg ddigwydd yn y dyfodol. Er mai dim ond un o'r sefydliadau sydd â rôl i ddiogelu'r cyhoedd a'n bod sawl cam i ffwrdd o gyflawniad dydd i ddydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae gennym drosolwg o'r rheolyddion fel grŵp, yn ogystal â dealltwriaeth o'r risgiau ehangach yn y system iechyd a gofal. Rydym angen sicrhau bod y rheolyddion yn cyflawni eu rolau mewn modd sy'n helpu lliniaru'r risgiau hynny. Rydym eisiau sicrhau bod ein proses adolygu perfformiad wedi ei gynllunio i nodi risgiau, yn cynnwys methiannau yn y system reoleiddio.
- 3.20 Mae dau o'n Safonau newydd yn arbennig o berthnasol i'n hasesiad o risg: Safon 4, 'Mae'r rheoleiddiwr yn adrodd ar ei berfformiad ac yn delio â phryderon a nodwyd amdano ac yn ystyried goblygiadau arno o gasgliadau ymchwiliadau cyhoeddus ac adroddiadau perthnasol eraill am faterion rheoleiddio gofal iechyd.' a Safon 5, 'Mae'r rheoleiddiwr yn ymgynghori a gweithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol ar draws ei holl swyddogaethau i nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd parthed ei gofrestryddion'.
- 3.21 Mae yna nifer o feysydd y credwn i fod yn bwysig i ni eu hadolygu yn ein dull i nodi risgiau a methiannau rheoleiddio:

⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/paterson-inquiry-report>

⁶

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/408480/47487_MBI_Accessible_v0.1.pdf

⁷ <https://www.immdsreview.org.uk/Report.html>

⁸

https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20150407084231tf_/http://www.midstaffspublicinquiry.com/report

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid: Er ein bod yn defnyddio tystiolaeth o amrediad eang o ffynonellau ar hyn o bryd, awgryma ein gwaith cychwynnol ac adborth yn ystod cyfnodau cynnal a dderbyniwyd yn rhan o'r adolygiad hwn (fel y trafodwyd ym mharagraffau 2.8-2.9 uchod) yn awgrymu i ni y gallem ymgysylltu'n fwy effeithiol gydag a defnyddio adborth gan amrediad ehangach o randdeiliaid, yn cynnwys y rheolyddion eu hunain, eu cofrestrdyddion a'r cyhoedd, yn ogystal â chyflogwyr a darparwyr gwasanaeth
- Sylfaen tystiolaeth: Byddwn yn adolygu' dystiolaeth a ddefnyddiwn i hysbysu adolygiadau perfformiad, yn cynnwys os dylem fod yn casglu gwahanol dystiolaeth (fel trwy adolygiadau i'n set data neu ein dull o gyflawni archwiliad) gydag ystyriaeth benodol i sut fyddwn yn asesu a yw'r rheolyddion yn gwneud digon i ddiogelu pobl fregus a sicrhau bod eu gwasanaethau yn hygyrch i bawb
- Datblygu ein dealltwriaeth o risgiau penodol i broffesiwn: Er bod y rheolyddion yn debygol o gael dealltwriaeth gref iawn o'r risgiau clinigol sy'n gysylltiedig gydag ymarferwyr, mae risgiau'n newid ac mae'n bwysig y dylem fod yn fodlon bod y rheolyddion yn gyfredol â'r rhain. Bwriadwn ddefnyddio ein rhwydweithiau o randdeiliaid i hysbysu ein hasesiad o risg ymhellach, fel bod yr Awdurdod yn gallu asesu perfformiad y rheolyddion wrth reoli risg yn briodol
- Adolygiadau thematig: Trafodwn adolygiadau thematig ymhellach ym mharagraffau 3.32-3.39. Rhagwelwn y byddai cyflwyno adolygiadau thematig yn darparu offeryn atodol i ni yn yr adolygiadau perfformiad a fyddai'n ein helpu u ddeall ble mae'r risgiau'n bodoli yn y system reoleiddio, deall methiannau rheoleiddio posibl, yn ogystal ag i gefnogi dysgu a datblygu ar draws y sector
- Ffocws ar ganlyniadau: Rydym hefyd yn ystyrlon o adborth gan y rheolyddion, fel y sefydlwyd ym mharagraff 3.8 uchod, y dylem ystyried ffocysu'n fwy ar ganlyniadau. Byddai hyn yn golygu ffocysu mwy ar sut mae'r rheolyddion yn bodloni eu diben cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd yn hytrach nag ar allbynnau a phrosesau a sicrhau wrth asesu perfformiad yn erbyn y Safonau bod effaith diogelu'r cyhoedd ar flaen ein meddwl.

Cwestiwn 7: A ydym wedi nodi'r meysydd cywir o'n dull sydd angen i ni ddatblygu yn y maes hwn? Oes yna unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Cwestiwn 8: Sut fyddai'r ffordd orau i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn ymwybodol o risgiau allweddol i ddiogelu'r cyhoedd? A oes yna unrhyw dystiolaeth arall y dylem ei sicrhau i hysbysu ein hadolygiadau perfformiad?

Gwneud penderfyniadau/mesur perfformiad: a ddylen ni gadw'r system ddeuol gyfredol neu fabwysiadu dull gwahanol?

- 3.22 Dan ein proses gyfredol, rydym yn penderfynu a yw pob Safon wedi ei bodloni neu beidio. Credwn fod hyn yn ffordd glir o sefydlu ein hasesiad o berfformiad y rheolyddion. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod y gall disgrifio Safon fel un sydd wedi ei bodloni neu beidio fod yn offeryn plaen ac:

- Na fyddai o reidrwydd yn adlewyrchu perfformiad mwy amwys, megis os yw'r perfformiad naill ai'n gwella neu'n gwaethygu, neu os yw'r Safon yn disgrifio nifer o agweddau o berfformiad rheoleiddiwr. Ar hyn o bryd, mae'r amwyster yma wedi ei gipio yn naratif ein hadroddiadau, ond fe hoffem archwilio os oes yna fanteision i gyflwyno system fesur amgen
 - Gall roi camagraff o berfformiad os bydd cyfres lawn o Safonau wedi eu 'bodloni' gan awgrymu nad oedd angen gwelliant ar gyfer y rheoleiddiwr hwnnw
 - Gellir ei ddefnyddio fel ffordd o gymharu rheolyddion nad yw o reidrwydd yn ddefnyddiol.
- 3.23 Fe ymgynghorom ar y dull hwn wrth gasglu barnau ar y Safonau newydd yn 2017. Doedd yna ddim consensws gan ymatebwyr ynghylch y ffordd fwyaf priodol o ddisgrifio perfformiad yn erbyn y Safonau. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r dull cyfredol, ac eraill yn ffafrio systemau mwy amwys. Roedd y rhain yn cynnwys dull pedwar cam (er enghraifft, 'bodlonwyd', 'bodlonwyd gyda phryderon', 'heb fodloni ond gwella' a 'heb fodloni'), neu systemau mwy cymhleth yn ymwneud â gwahanol lefelau o berfformiad. Nododd rhai nad oedd y dull cyfredol yn caniatáu ar gyfer nodi perfformiad oedd yn rhagori ar ddisgwyliadau.
- 3.24 Penderfynom beidio newid ei ddull oherwydd:
- Roeddem eisiau disgrifio canlyniadau oedd yn glir i ddarllenwyr
 - Nid oeddem o'r farn ei fod yn debygol o fod yn ddefnyddiol i gael system gymhleth yn cynnwys lefelau gwahanol a allai fod yn anodd eu hasesu'n gyson ac a allai arwain at ddryswch a dadlau gyda rheolyddion
 - Teimlom y gallai bodloni asesiad 'bodlonwyd' fod yn ddryslyd i ddarllenwyr ac yn amhriodol
 - Fe ystyriom y gallem drafod amwysterau perfformiad yn naratif yr adroddiad
- 3.25 Ers gwneud y penderfyniad hwnnw, rydym wedi cyflwyno perfformiad wedi ei asesu yn erbyn y Safonau newydd. Yn gyffredinol, nid ydym wedi cael anhawster o ran gwneud asesiadau ar y dystiolaeth sydd ar gael i ni, ac rydym wedi gallu mynegi'r rheswm dros ein penderfyniad yn naratif yr adroddiad. Fodd bynnag, gan fod rhai o'r safonau yn trafod sawl agwedd o waith y rheolyddion, rydym wedi gorfod sefydlu barn o ran os yw perfformiad diffygiol mewn un agwedd yn drech na pherfformiad da mewn agweddau eraill. Efallai na fydd y canlyniad terfynol yn cyfleu cymhlethdod y materion a arweiniodd at y penderfyniad felly.
- 3.26 Rydym yn parhau i gredu fod penderfyniadau syml parthed pob un o'r Safonau yn ddymunol ac y byddant yn hoelio sylw'r rheolyddion ar y meysydd sydd fwyaf angen eu gwella. Fodd bynnag, rydym yn ceisio barnau eto ar os oes yna ddull amgen sy'n glir, ond hefyd yn cyfathrebu rhywfaint o amwyster perfformiad.
- 3.27 Mae systemau mesur amgen y gallem fabwysiadu yn cynnwys:
- Cynllun graddio gydag amrywiaeth o ddewisiadau yn disgrifio perfformiad gwael i ragorol

- Cynllun yn cynnwys graddiad ‘coch’, ‘ambr’ a ‘gwyrdd’ ble mae coch yn dynodi pryderon difrifol ynghylch perfformiad, ambr yn dynodi rhai pryderon, a gwyrdd yn dynodi nad oes pryderon
- Cynllun ble rydym yn cadw'r disgrifwyr bodlonwyd ac ni fodlonwyd, ond yn ychwanegu rhai manylion pellach fel ‘heb fodloni ond yn gwella’.

Cwestiwn 9: A ddylen ni gadw'r system ddeuol neu fabwysiadu dull mwy amwys?

Cwestiwn 10: Pe byddem yn mabwysiadu dull gwahanol, pa ddull amgen fyddech chi'n ei ffafrio a pham?

Cefnogi gwelliant: sut allwn ni sicrhau bod ein hadolygiadau perfformiad yn ychwanegu'r gwerth mwyaf ac yn hybu gwaith rheolyddion o ran diogelu'r cyhoedd

- 3.28 Mae ein hadroddiadau adolygiad perfformiad yn ddisgrifiadol yn bennaf. Er ein bod wedi nodi mentrau neu welliannau newydd positif, mae ein ffocws wedi bod ar asesu os yw'r rheolyddion yn bodloni'r Safonau, yn hytrach nag i nodi arferion da. Rydym yn ystyrlon yn ôl egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir,⁹ y dylai ymatebion fod yn gymesur i'r risgiau dan sylw. Felly, dylai ein hadnoddau ni (ac adnoddau'r rheolyddion) ganolbwyntio'n bennaf ar nodi ble nad yw'r Safonau wedi eu bodloni neu ble rydym wedi nodi pryderon gyda pherfformiad, yn hytrach na ble mae'r Safonau wedi eu bodloni a rhagori arnynt.
- 3.29 Mae gennym hefyd amheuan ynghylch cyhoeddi cyfarwyddiadau i reolyddion eu dilyn ble ceir pryderon am berfformiad, gan ein bod yn ystyriol mai'r rheolyddion sydd yn y sefyllfa orau i nodi sut i wella eu perfformiad eu hunain.
- 3.30 Rydym yn ystyriol na fyddai rhywbeth sy'n gweithio i un rheoleiddiwr o reidrwydd yn gweithio i un arall, a phe byddem yn cyhoeddi argymhellion neu'n nodi arfer da, y byddai angen deall nad oedd hyn o reidrwydd yn awgrym i bob rheoleiddiwr ei ddilyn.
- 3.31 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod grym y sylwadau gan rai rheolyddion (yn cynnwys pwyntiau a godwyd yn ystod ein gwaith ymgysylltu cyn ymgynghori) y dylem fod yn fwy rhagweithiol wrth nodi arferion da yn ein hadroddiadau yn ogystal â meysydd penodol ble gellid sicrhau gwelliannau. Yn wir, mae adran 26(2)(c) ein deddfwriaeth yn caniatáu i ni ‘argymhell i gorff rheoleiddio ei fod yn newid y modd mae'n cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau’. Rydym wedi nodi pedair ffordd bosibl i ddelio â'r pwyntiau a godwyd gan y rheolyddion:
- Gallem fod yn fwy penodol o ran nodi perfformiad cryf gan reolyddion unigol. Byddai hyn yn ffordd i nodi arferion da ar gyfer gweddill y sector
 - Gallem wneud argymhellion ffurfiol i reolyddion unigol ynghylch sut ddylent wella prosesau
 - Gallem ddarparu argymhellion i'r sector. Mae'n debygol y byddai'r rhain yn argymhellion lefel uchel, fwy na thebyg o ran risgiau sy'n cwmpasu'r

⁹ Disgrifia rheoleiddio cyffyrddiad cywir yr ymagwedd a fabwysiedir gennym yn y gwaith a wnawn. Dyma'r ymagwedd yr ydym yn annog y rheolyddion i weithio tuag ati. Ar bapur, gellir cyrchu Rheoleiddiad Cyffyrddiad Cywir yma: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/thought-paper/right-touch-regulation-2015.pdf?sfvrsn=eaf77f20_20

sector gyfan neu broblemau sy'n gyffredin i nifer o reolyddion. Nid yw'n glir i ni y byddai adolygiad perfformiad o un rheoleidiwr unigol y sail mwyaf priodol ar gyfer gwneud argymhellion o'r fath, ond credwn y gallai adolygiadau thematig ddarparu cyfle i ni archwilio risgiau ar draws y sector ac y gallai'r rhain arwain at argymhellion. Trafodir adolygiadau thematig yn fanylach ym mharagraffau 3.32-3.40 isod

- Rydym hefyd yn ystyried y gallai ein rôl wrth nodi, rhannu a chefnogi arfer da gynnwys amrediad eang o weithgareddau tu hwnt i nodi arferion da yn ein hadroddiadau adolygiad perfformiad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cefnogi gweithio ar draws rheoleiddio, ymgysylltu â'r rheolyddion trwy seminarau a gwaith tebyg.

Cwestiwn 11: A fyddai'r newidiadau hyn yn cefnogi'r rheolyddion i ddysgu o'n gwaith a gwaith y rheolyddion eraill, fel bod y cyhoedd wedi ei ddiogelu'n well?

Adolygiadau thematig: ydych chi'n credu y byddai adolygiadau thematig yn ein cynorthwyo yn ein craffu o'r rheolyddion ac yn hybu ein rôl diogelu'r cyhoedd?

- 3.32 Fe archwiliom y posibiliad o gyflwyno adolygiadau thematig gyda'r rheolyddion yn 2019. Roedd yr ymatebion gan y rheolyddion yn amrywiol. Ystyriai rhai y byddai golwg fanwl ar un maes pwnc gyda meincnodi yn deillio o hynny ar gyfer adolygiadau perfformiad yn y dyfodol ac arweiniad yn fuddiol. Roedd rheolyddion eraill yn poeni ynghylch y gofynion adnoddau ar gyfer adolygiadau o'r fath.
- 3.33 Ni wnaethom ddatblygu'r adolygiadau ar y pryd, ac yn fuan cyn ein bod yn bwriadu eu cyflwyno, gosododd y pandemig Covid-19 feichiau arwyddocaol ar y rheolyddion na fyddai wedi bod yn briodol ychwanegu atynt. Penderfynom edrych eto ar y mater yn rhan o'r gwaith hwn oherwydd ein bod yn credu bod ein dull ar gyfer adolygiadau thematig yn cysylltu i gwestiynau eraill rydym yn eu holi, fel y rhai ym mharagraffau 3.18-3.21 uchod ar risg, yn ogystal ag ym mharagraffau 3.28-3.31 uchod ar sut y gallwn gefnogi gwelliannau.
- 3.34 Bwriad adolygiadau perfformiad yw edrych ar berfformiad rheolyddion unigol. Nid ydynt yn darparu gwybodaeth ynghylch neu ddadansoddiad o ddull y rheolyddion fel grŵp. Byddai adolygiad thematig yn edrych ar un maes pwnc unigol ac yn archwilio gwahanol ddulliau, gofyn cwestiynau neu wneud argymhellion i'r rheolyddion ystyried. Byddai'n manteisio ar ein safle unigryw o ran goruchwyllo gwaith yr holl reolyddion a gallai helpu dosbarthu arferion da. Gallai adolygiadau thematig ein helpu i ddarparu meincnodau ar gyfer adolygiadau perfformiad. Gallent gefnogi dysgu a gwelliannau ehangach. Mae hyn yn cysylltu i'n syniadau o amgylch y meysydd hyn o'n gwaith, fel y trafodir ym mharagraffau 3.28-3.31 uchod.
- 3.35 Rhagwelwn y byddai adolygiadau thematig yn cynnwys cyfnod o ymchwil desg yn ogystal â chasglu tystiolaeth gan y rheolyddion ac eraill, cyn drafftio adroddiad. Gallai'r adroddiad nodi meysydd arferion da a gallai wneud argymhellion, ond ni fyddai'n cael ei ystyried i fod yn adolygiad perfformiad manwl ac ni fyddem yn disgwyl archwilio gwaith rheolyddion unigol.
- 3.36 Wrth bennu meysydd ar gyfer adolygiad thematig, byddem yn cadw dan ystyriaeth newidiadau yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai'r

rhain yn cynnwys, er enghraifft, datblygiadau polisi, risgiau sy'n codi a chanlyniadau ymchwiliadau. Gallwn asesu sut mae'r rheolyddion yn ymateb i newidiadau o'r fath trwy adolygiadau perfformiad unigol. Fodd bynnag, credwn ar gyfer rhai newidiadau o'r fath y gallai fod yn fuddiol cyflawni adolygiadau thematig i edrych ar ymateb y rheolyddion fel grŵp.

- 3.37 Byddai cyflawni adolygiadau thematig yn creu gwaith atodol i ni ac i'r rheolyddion. Ein nod fyddai i ddelio â hyn trwy greu arbedion effeithlonrwydd yn y broses o adolygu perfformiad yn dilyn yr adolygiad hwn. Byddem yn nodi'r gwaith yn rhan o'n cynllunio busnes pob blwyddyn ac yn ymgynghori gyda'r rheolyddion ynghylch amseriad ein hadolygiadau a blaenoriaethau ar gyfer y testun.
- 3.38 Ein barn bresennol yw y byddai cyflawni adolygiadau o'r fath yn darparu cyfrwng pwysig i'n galluogi i ddarparu mwy o ddealltwriaeth o risg ac arfer da. Rydym yn gwahodd adborth ar y posibiliad o gyflwyno cynllun o adolygiadau thematig.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n credu y byddai adolygiadau thematig yn ein cynorthwyo yn ein craffu o'r rheolyddion ac yn hybu ein rôl diogelu'r cyhoedd?

4. Asesiad o effaith y cynigion

- 4.1 Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn deall unrhyw effaith neu faich mae ein cynigion yn debygol o greu er mwyn i ni allu ystyried unrhyw newidiadau priodol.
- 4.2 Credwn y gellir cyflawni asesiad mwy cywir o effaith unrhyw newid unwaith y bydd prosesau gweithredol diwygiedig wedi eu datblygu, ond yn dal yn ystyrllon o effaith bosibl unrhyw newidiadau y byddwn yn eu harchwilio trwy gydol y broses adolygu hon. Rydym yn gofyn am farnau'r rhai a effeithir, ac yn benodol y rheolyddion ac eraill sy'n ymateb i'n hadolygiadau perfformiad o effaith debygol y newidiadau i'r broses a amlinellwyd yma.

Cwestiwn 13: Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion a sefydlir yn y papur hwn yn debygol o'u cael r eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion.

- 4.3 Yn ystod pob cam o'n hadolygiad, byddwn yn ystyried a oes goblygiadau cydraddoldeb arwyddocaol, naill ai'n bositif neu'n negyddol, ar gyfer ein rhanddeiliaid. Nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau cydraddoldeb neu amrywiaeth negyddol arwyddocaol o'n cynigion a disgwylwn y bydd budd positif i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd o wella craffu ar y rheolyddion gyda phroses wedi ei diweddarau.
- 4.4 Fodd bynnag, byddem yn croesawu unrhyw adborth i sicrhau'n bod yn ystyried yr holl faterion perthnasol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ynghylch effaith y cynigion hyn.

Cwestiwn 14: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- *Oedran*
- *Anabledd*
- *Ailbennu rhywedd*
- *Priodas a phartneriaeth sifil*
- *Beichiogrwydd a mamolaeth*
- *Hil*
- *Crefydd neu gred*
- *Rhyw*
- *Cyfeiriadedd rhywiol*
- *Arall (nodwch)*

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

5. Crynodeb o gwestiynau a sut i ymateb

Crynodeb o gwestiynau

Cwestiwn 1: A oes yna unrhyw bryderon eraill ynghylch y broses gyfredol o adolygu perfformiad nad ydym wedi eu nodi yma?

Cwestiwn 2: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein rôl neu'n dull cyffredinol o gynnal adolygiad perfformiad fel y sefydlwyd yma?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylem ddal i edrych ar berfformiad y rheolyddion yn erbyn yr holl Safonau pob blwyddyn, neu a allai cwmpas yr adolygiadau fod yn fwy targedig?

Cwestiwn 4: Pe byddem am newid ein dull, ai dyma'r ffactorau cywir i ni eu hystyried wrth bennu cwmpas adolygiadau? Oes yna unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Cwestiwn 5: Pe byddem yn gweithredu system fel y disgrifiwyd uchod, ydych chi'n cytuno y dylid tybio y dylai'r Awdurdod adolygu'r holl Safonau'n weithredol ar ysbeidiau rheolaidd? Beth ydych chi'n feddwl fyddai cyfnod amser priodol?

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylem gyflwyno prosesau monitro fel y disgrifiwyd uchod? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr awgrymiadau hyn?

Cwestiwn 7: A ydym wedi nodi'r meysydd cywir o'n dull sydd angen i ni ddatblygu yn y maes hwn? Oes yna unrhyw beth arall y dylem ei ystyried?

Cwestiwn 8: Sut fyddai'r ffordd orau i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn ymwybodol o risgiau allweddol i ddiogelu'r cyhoedd? A oes yna unrhyw dystiolaeth arall y dylem ei sicrhau i hysbysu ein hadolygiadau perfformiad?

Cwestiwn 9: A ddylen ni gadw'r system ddeuol neu fabwysiadu dull mwy amwys?

Cwestiwn 10: Pe byddem yn mabwysiadu dull gwahanol, pa ddull amgen fyddech chi'n ei ffafrio a pham?

Cwestiwn 11: A fyddai'r newidiadau hyn yn cefnogi'r rheolyddion i ddysgu o'n gwaith a gwaith y rheolyddion eraill, fel bod y cyhoedd wedi ei ddiogelu'n well?

Cwestiwn 12: Ydych chi'n credu y byddai adolygiadau thematig yn ein cynorthwyo yn ein craffu o'r rheolyddion ac yn hybu ein rôl diogelu'r cyhoedd?

Cwestiwn 13: Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion a sefydlir yn y papur hwn yn debygol o'u cael r eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion.

Cwestiwn 14: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- *Oedran*
- *Anabledd*
- *Ailbennu rhywedd*
- *Priodas a phartneriaeth sifil*

- *Beichiogrwydd a mamolaeth*
- *Hil*
- *Crefydd neu gred*
- *Rhyw*
- *Cyfeiriadedd rhywiol*
- *Arall (nodwch)*

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

Sut i ymateb

- 5.1 Gallwch ymateb i'r neu trwy e-bost:
PRconsultation@professionalstandards.org.uk
- 5.2 Oherwydd y pandemig, rydym yn annog anfon ymatebion trwy e-bost neu trwy'n harolwg. Os nad yw hyn yn bosibl, ein cyfeiriad post yw:
Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP
- 5.3 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygrych o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu trwy e-bost at
- 5.4 Dychwelwch eich ymateb atom erbyn **4 Mawrth 2021**.

6. Cyfrinachedd gwybodaeth

- 6.1 Byddwn yn rheoli'r wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i'r papur trafod hwn yn unol â'n polisïau diogelwch gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan (www.professionalstandards.org.uk).
- 6.2 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).
- 6.3 Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol.

- 6.4 Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod.
- 6.5 Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

7. Ein proses ymgynghori ac adborth

7.1 Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, 'Consultation principles: guidance'.¹⁰ Wrth gyflawni ymgynghoriadau cyhoeddus ar agweddau o waith yr Awdurdod, rydym yn ceisio:

- Bod yn glir o ran y broses ymgynghori a'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddylanwadu ar ein syniadaeth ac ystyried manteision ac anfanteision ein cynigion
- Ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cwrpas i ddylanwadu ar y polisi fel bod diben i'r ymgynghoriadau
- Roi digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn deall y materion ac yn gallu darparu ymatebion gwybodus. Rydym yn cynnwys asesiadau o gostau a buddion a'r opsiynau a ystyriwyd
- Ceisio barn gyfunol cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, yn arbennig wrth ymgynghori ar gynigion newydd
- Ymgynghori am gyfnod cymesur o amser, gan gasglu barnau ar natur ac effeithiau'r cynigion. Byddai ymgynghori am gyfnod rhy hir yn oedi datblygiad polisi ac nid yw ymgynghori'n rhy gyflym yn rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth a bydd yn lleihau safon yr ymatebion
- Sicrhau bod ein hymgyngoriad yn dargedig i ystyried yr ystod lawn o randdeiliad, cyrff ac unigolion a effeithir gan y polisi a chynnwys grwpiau cynrychiadol perthnasol. Ystyried targedu grwpiau penodol os oes angen.
- Ystyried ymgynghori i fod yn broses barhaus, nid dogfennau ac ymatebion ffurfiol yn unig.
- Dadansoddi ymatebion yn ofalus ac esbonio'r ymatebion a dderbyniwyd a sut maent wedi hysbysu'r polisi. Rhoi adborth clir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos neu esbonio pam nad yw hynny'n bosibl
- Caniatáu amser priodol rhwng cau'r ymgynghoriad a gweithredu'r polisi.

7.2 Os oes gennych bryderon neu sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â ni:

Christine Braithwaite
Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi
Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP
Ffôn: 020 7389 8030
Ffacs: 020 7389 8040

christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk

¹⁰ Swyddfa'r Cabinet. 2016. *Consultation principles: guidance*. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/492132/20160111_Consultation_principles_final.pdf